

# Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Tachwedd 6ed 2018 yn Neuadd Bro Derfel. Yn bresennol oedd Gwynedd Jones (Cadeirydd), Eilir Rowlands, Meilir Jones, Eifion Davies, Alwyn Jones, Gary Thomas, Maldwyn Jones, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwenda Morris, Rita Jones, Gethin Morris, Dewi Pritchard, Iolo Evans a Gwenda Evans.

i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Hydref a chafwyd yn gywir.

## **ii) Datgan Buddiant.**

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

## **iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

### a) Mynwentydd.

i) Archwilio'r mynwentydd - trefnwyd dyddiad ar gyfer ail archwilio'r cerrig beddi. Adroddodd y clerc ei bod wedi derbyn cwyn am gyflwr y fynwent yn Llandderfel - gweddillion tocio'r gwrych heb eu casglu, glaswellt rhan isaf y fynwent heb gael ei dorri a'r biniau yn llawn. Adroddodd y clerc ei bod yn ymwybodol fod y contractwr torri glaswellt wedi methu casglu gweddillion y gwrych oherwydd problemau gyda'r clo. Cadarnhaodd y clerc fod trefniadau mewn lle i amnewid y clo presennol i sicrhau na fyddai hyn yn digwydd eto. Cytunwyd i wneud ymholiadau i weld os fyddai rhywun yn barod i wirfoddoli i fynd a'r biniau i ben y ffordd er mwyn cael eu gwagu yn amlach gan Gyngor Gwynedd.

ii) Torri coed mynwent Frongoch - adroddodd y clerc eu bod wedi cysylltu â'r contractwyr lleol ond dim ond un pris a dderbyniwyd. Gan fod y pris yn rhesymol a'r contractwr wedi gwneud gwaith o'r blaen i'r Cyngor cytunwyd i roi'r gwaith i Craig Tree Services.

### b) Mabwysiadu rheolau'r mynwentydd.

Dosbarthwyd copïau diwygiedig o'r rheolau a thrafodwyd newidiadau i greu'r fersiwn gorffenedig. Cytunwyd i fabwysiadu'r rheolau a'i gweithredu o fis Ebrill nesaf ymlaen. Trafodwyd yr angen i gael hysbysfwrdd wrth fynedfa'r fynwent i'w arddangos a hefyd hysbysiadau achlysurol eraill.

### c) Diogelu Data.

Cafwyd adroddiad o'r hyn a drafodwyd yn y cwrs hyfforddiant a fynychodd y clerc ym mis Hydref. Cytunwyd i'r clerc ymaelodi'r Cyngor gyda'r ICO.

### ch) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfodydd diwethaf:-

i) Cais am loches bws i Lanfor – cafwyd cadarnhad fod y mater wedi cael ei drosglwyddo i'r Asiantaeth Cefnffyrdd

ii) Cais am arwydd i'r Fynwent Newydd yn Llandderfel - cafwyd cadarnhad fod y mater wedi cael ei drosglwyddo i'r adran berthnasol

iii) Gwrych yn gordyfu i'r ffordd gyferbyn a Penisa'r Llan, Llanfor - roedd y tirlfeddiannwr am wneud trefniadau i'w glirio.

iv) Camfa rhwng Crynieth Mawr ac Erw Feurig, Cefnddwysarn - cafwyd cadarnhad y byddai'r swyddog llwybrau cyhoeddus yn delio'r gyda'r mater.

v) Coed ochr draw i Cei Llyn Celyn - roedd y gweithlu wedi cychwyn y gwaith torri coed a gobeithir byddai'r gwaith wedi cael ei gwblhau yn yr wythnosau nesaf.

vi) Tyddyn Sgubor, Glanrafon - cafwyd cadarnhad for yr archwiliwr priffyrdd yn ymwybodol o'r broblem ac am drafod y mater gyda'r tirlfeddiannwr.

#### **iv) Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

##### **a) Cyngor Gwynedd**

i) Copi o'r ddogfen 'Ymgynghori Cyhoeddus Canllawiau Cynllunio Atodol: Llecynnau Agored mewn Datblygiadau Tai Newydd a Tai Marchnad Agored'.

ii) Taclo Unigrwydd mewn Cymunedau - gwahoddiad i Gynhadledd Flynyddol Cyngor Pobl Hyn Gwynedd ym Mhorthmadog, 16/11/18.

iii) Dathliad Gaeaf Age Cymru - gwybodaeth am gronfa Age Cymru sy'n cynnig grantiau i grwpiau cymunedol i gynnal digwyddiadau cymdeithasol i drigolion hyn fel ffordd ymarferol i daclo unigrwydd.

##### **b) Panel Annibynnol Cymru**

i) Adroddiad Blynyddol Drafft ar Gydnabyddiaeth Ariannol Chwefror 2019. Cytunwyd yn unfrydol i wrthwynebiad bwriad o wneud rhai o'r taliadau i'r cynghorwyr yn orfodol.

##### **c) Cylch yr Iaith.**

i) Copi o'i dogfen a oedd yn cyflwyno sylwadau ar dwristiaeth yng Ngwynedd gyda cais penodol yn ymwneud a pholisi twristiaeth y Cyngor Sir.

#### **v) Ceisiadau Cynllunio.**

Nid oedd unrhyw geisiadau i'w trafod.

#### **vi) Materion Ariannol.**

##### **a) Cytunwyd i dalu'r canlynol:-**

i) Un Llais Cymru (Cwrs hyfforddiant) a Chyngor Gwynedd (Archwiliad Mewnol)

##### **b) Derbyniadau**

i) SLCC (arian bwrsari cwrs hyfforddiant)

##### **ch) Ceisiadau ariannol**

Derbyniwyd cais ariannol gan Hosbis Tŷ'r Eos. Cytunwyd i'w drafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

#### **vii) Materion lleol.**

##### **a) Triathalon Y Bala.**

Derbyniwyd gwybodaeth am y cynlluniau ar gyfer y triathalon yn 2019 gyda'r bwriad o ddefnyddio'r B4391, Llandderfel ar gyfer ras y plant. Cytunodd Gwynedd Jones fynychu'r cyfarfod ar y 15/11/18 i gael rhagor o wybodaeth.

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Rhagfyr 4ydd yn Neuadd Bro Derfel am 7.30 y.h.**